



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Antur Waunfawr

**Bryn Pistyll
Waunfawr
Caernarfon
LL55 4BJ**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

19/03/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Antur Waunfawr

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cymorth Cartref
Darparwr Cofrestredig	ANTUR WAUNFAWR
Lleoedd cofrestredig	0
Iaith y gwasanaeth	Cymraeg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	28 Gorffennaf 2021
Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddarparu gofal a chymorth o ansawdd uchel i'r bobl. Mae pwyslais ar wrando ar safbwyntiau'r bobl, a sicrhau eu bod yn cael y cymorth cywir i wneud yr hyn sy'n bwysig iddynt. Rhoddir blaenoriaeth i ddarparu dewisiadau a hyrwyddo annibyniaeth. Caiff y bobl eu cefnogi i fod yn rhan o'u cymuned ac maent yn canmol y gwasanaeth a ddarperir iddynt yn fawr.

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel ac maent wedi cael hyfforddiant ar sut i roi cymorth effeithiol i'r bobl mewn modd urddasol. Mae'r rheolwr yn goruchwyllo'r gofal sy'n cael ei ddarparu'n dda, sy'n sicrhau y caiff anghenion y bobl eu diwallu'n gyson. Mae'r gweithwyr gofal yn angerddol am eu rolau, maent yn mwynhau eu gwaith ac yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli. Mae'r Unigolyn Cyfrifol (UC) yn monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn agos, drwy siarad â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd a thrwy gwblhau hapwiriadau. Mae'r diwylliant yn un cadarnhaol ac mae'r darparwr yn parhau i ysgogi gwelliannau a datblygu'r gwasanaeth ymhellach.

Llesiant

Mae'r bobl yn hapus ac mae ganddynt ymdeimlad o berthyn. Gwelsom fod y bobl yn gallu ymlacio yng nghwmni'r gweithwyr gofal am fod ganddynt gydberthnasau cadarnhaol â nhw, a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r gweithwyr gofal yn siarad â'r bobl mewn ffordd garedig, barchus a thyner. Mae sawl un ohonynt wedi bod yn gweithio yn y gwasanaeth ers blynnyddoedd lawer. Maent yn deall anghenion y bobl yn dda ac maent yn wynebau cyfarwydd i'r bobl y maent yn eu cefnogi. Roedd sylwadau'r bobl wrth ddisgrifio'r gofal yn cynnwys "*Ardderchog*" a "*Good*". Gwnaethant ddweud wrthym fod "*Pawb yn helpu fi*", eu bod yn "*hoffi staff*" a bod "*Pob dim yn iawn*".

Darperir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i wneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain. Gwelsom fod gwasanaethau eirioli yn cael eu hannog yn weithredol ar gyfer y bobl sy'n cael trafferth mynegi eu safbwyntiau. Trefnwyd gwasanaeth eirioli er mwyn i'r bobl rannu eu barn yn ystod yr arolygiad hwn. Caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o lunio eu cynlluniau personol a rhoddir dewisiadau iddynt mewn perthynas â'u penderfyniadau dyddiol. Lle y bo'n bosibl, caiff y bobl eu cynnwys yn y broses o gyfweld â gweithwyr gofal newydd, a chânt benderfynu ar ba weithiwr gofal yr hoffent ei gael. Mae'r prosesau sicrhau ansawdd sydd ar waith yn blaenoriaethu profiadau'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a chaiff eu safbwyntiau a'u barn eu cofnodi. Mae'r UC yn cyfarfod yn aml gyda phobl sydd yn defnyddio'r gwasanaeth.

Darperir y gofal a'r cymorth cywir er mwyn galluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau. Mae anghenion gofal pob unigolyn yn hysbys cyn iddo ddechrau derbyn gwasanaeth, a chaiff y wybodaeth hon ei cofnodi yn y cynlluniau personol. Caiff y rhain eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddarau os bydd unrhyw newidiadau. Defnyddir asesiadau risg i reoli risgiau hysbys i iechyd a diogelwch y bobl.

Gall y bobl wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Mae cofnod o ddiddordebau a hobiau'r bobl yn y dogfennau gofal. Darperir cymorth er mwyn galluogi'r bobl i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau cymdeithasol gwahanol. Mae hyn yn golygu bod y bobl yn cael cyfleoedd i wneud cysylltiadau cymdeithasol newydd ac i deimlo'n rhan o'u cymuned. Gwelsom fod gan y darparwr gydberthnasau rhagorol â sefydliadau allanol sy'n cynyddu'r dewis o weithgareddau sydd ar gael i'r bobl gymryd rhan ynddynt. Mae'r defnydd effeithiol o asesiadau risg yn golygu y gall y bobl roi cynnig ar brofiadau newydd sy'n ychwanegu at eu profiadau bywyd.

Darperir gofal a chymorth i'r bobl yn eu dewis iaith. Caiff y Gymraeg ei chydabod a'i gwerthfawrogi fel rhan bwysig o hunaniaeth y bobl. Gall y gweithwyr gofal, y rheolwr, a'r Unigolyn Cyfrifol sgwrsio â'r bobl yn Gymraeg neu Saesneg. Mae hyn yn golygu y gall y

bobl fynegi eu hunain yn yr iaith y maent fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Mae polisïau a dogfennau ar gael yn ddwyieithog. Mae'r gweithwyr gofal hefyd yn defnyddio iaith arwyddion Makaton a PECS (System Cyfathrebu Cyfnewid Lluniau) i gyfathrebu'n effeithiol â'r bobl.

Gofal a Chymorth

Mae anghenion gofal a chymorth y bobl yn hysbys, a chânt eu hystyried gan y rheolwr cyn y caiff gwasanaeth ei gynnig i bob unigolyn. Caiff gwybodaeth sy'n ymwneud ag anghenion unigol y bobl, gan gynnwys risgiau i'w hiechyd a'u diogelwch, ei chasglu gan weithwyr proffesiynol sydd eisoes yn adnabod yr unigolyn. Caiff gwybodaeth ei choladu gan yr unigolyn, ei deulu ac unrhyw ddarparwr gofal arall y mae'r unigolyn yn ei adnabod hefyd. Mae hyn yn golygu bod y rheolwr yn gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth o ran a yw'r gwasanaeth yn addas ar gyfer yr unigolyn ac a all ddiwallu ei anghenion. Caiff anghenion cymorth y bobl eu hadolygu'n rheolaidd, a rhoddir gwybod i gomisiynwyr pan fydd anghenion y bobl yn newid yn sylweddol.

Mae'r cynlluniau personol yn cael eu llunio gyda'r bobl, ac maent yn cofnodi eu hanghenion gofal penodol yn fanwl. Maent yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r ffordd yr hoffai pob unigolyn gael cymorth hefyd. Gwelsom fod 'sbardunau' posibl wedi'u cofnodi yn y dogfennau gofal, yn ogystal â strategaethau y gwyddys eu bod yn effeithiol wrth gefnogi'r bobl yn ystod cyfnodau anodd. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym eu bod yn darllen cynlluniau personol ac asesiadau risg y bobl cyn dechrau gweithio gyda'r unigolyn. Maent hefyd yn gweithio shifftiau cysgodi, ochr yn ochr â gweithwyr gofal arferol y bobl. Mae hyn yn sicrhau parhad o ran y gofal a'r cymorth a gaiff y bobl. Mae'r cofnodion yn dangos bod y gofal a'r cymorth a ddarperir yn unol â chynlluniau personol y bobl. Caiff asesiadau risg eu defnyddio i annog y bobl i gymryd risgiau cadarnhaol, sy'n cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt gymryd rhan mewn gweithgareddau y maent yn eu mwynhau.

Mae trefniadau ar waith i hybu iechyd y bobl. Mae cyflyrau iechyd y bobl yn hysbys a chânt eu cofnodi yn eu dogfennau gofal. Rhoddir cymorth i gael gafael ar gyngor meddygol pan fydd iechyd y bobl yn newid, yn ogystal â chymorth i fynd i apwyntiadau yn yr ysbyty. Mae'r cofnodion yn dangos yr ymgynghorir yn rheolaidd â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol, gan gynnwys pan fydd anghenion gofal newydd yn datblygu. Mae hyn yn sicrhau bod y bobl yn cael y cymorth cywir i'w galluogi i gyflawni eu canlyniadau. Caiff meddyginiaeth ei rhoi fel y'i rhagnodwyd, fel bod cyflyrau iechyd y bobl yn cael eu rheoli'n dda.

Mae systemau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag camdriniaeth ac esgeulustod. Mae polisi diogelu ar gael ac mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant perthnasol. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau mewn perthynas â chadw'r bobl yn ddiogel. Gwelsom eu bod yn hyderus o ran pa gamau y byddent yn eu cymryd pe bai ganddynt unrhyw bryderon diogelu mewn perthynas â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Caiff y gweithwyr gofal eu recriwtio'n ddiogel a chânt hyfforddiant priodol sy'n berthnasol i anghenion y bobl y maent yn eu cefnogi. Mae'r cofnodion yn dangos bod gwiriadau addasrwydd cyn cyflogi yn cael eu cwblhau cyn i weithwyr gofal newydd ddod i weithio yn y gwasanaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn cwblhau cyfnod sefydlu a hyfforddiant gorfodol, yn ogystal â rhaglen sefydlu Gofal Cymdeithasol Cymru. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael cymorth i gyflawni cymwysterau gofal cymdeithasol er mwyn gwella eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau eu gwaith (“*very rewarding*”), ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn teimlo bod cyfleoedd da yn y gwasanaeth iddynt datblygu yn eu gyrfa. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda yn eu rolau, a'u bod bob amser yn gallu cael arweiniad gan uwch-reolwr pan fo angen. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn cael sesiynau goruchwyllo un i un rheolaidd â'u rheolwr llinell, a bod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal yn aml hefyd. Dywedodd y rheolwr wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan yr Unigolyn Cyfrifol a'r uwch-swyddogion eraill yn y gwasanaeth.

Mae systemau cadarn ar waith i oruchwyllo'r gwasanaeth a sicrhau ei fod yn cael ei redeg yn ddidrafferth, sy'n gwneud yn siŵr bod gofal a chymorth o ansawdd uchel yn cael eu darparu'n gyson. Cynhelir archwiliadau rheolaidd i brofi agweddau amrywiol ar y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu fel y dylent. Yn ystod yr arolygiad gynt gwelwyd nad oedd yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau mor rheolaidd ag oedd angen. Yn ystod yr arolygiad yma gwelsom bod gwelliannau wedi digwydd. Dangosai cofnodion bo yr Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau ffurfiol â'r lleoliadau amrywiol er mwyn cadarnhau bod y bobl yn fodlon ar y gwasanaeth y maent yn ei gael. Mae'n ymgynghori â'r bobl, eu perthnasau, y gweithwyr gofal a'r gweithwyr proffesiynol sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaeth. Caiff adolygiadau o ansawdd y gofal eu cwblhau ddwywaith y flwyddyn, sy'n asesu boddhad y bobl â'r gwasanaeth y maent yn ei gael yn ffurfiol. Mae'r adroddiadau yn cynnwys barn y bobl, a gwelsom fod eu safbwyntiau yn llywio datblygiad parhaus y gwasanaeth. Gwneir ymdrechion i ystyried ffyrdd newydd a gwahanol o weithio. Mae'r uwch-reolwyr yn mynychu cynadleddau a digwyddiadau cenedlaethol fel rhan o'u hymdrechion i wella a datblygu'r gwasanaeth a ddarperir.

Mae gwybodaeth ysgrifenedig ar gael i'r bobl am y gwasanaeth a ddarperir. Mae datganiad o ddiben cyfredol ar gael sy'n rhoi gwybod i'r bobl yr hyn y gallant ei ddisgwyl gan y gwasanaeth. Mae'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cynnwys gwybodaeth am y ffordd y gall y bobl wneud cwyn os bydd angen iddynt wneud hynny. Gwelsom fod y daflen cwynion benodol wedi cael ei hysgrifennu mewn fformat sy'n hawdd ei ddeall, fel y gall y bobl ddeall eu hawliau.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio	
Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth		
Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G
73	Rheoliad 73 - yn ymwneud ag ymweliadau'r unigolyn cyfrifol. Mae gan y gwasanaeth ddirprwy i oruchwylio'r gwaith o redeg y gwasanaeth, ac ni welwyd unrhyw effaith ar ddefnyddwyr y gwasanaeth. Fodd bynnag, yn dechnegol, nid yw'r Unigolyn Cyfrifol wedi gallu cynnal ymweliadau wyneb yn wyneb nac ymweliadau rhithwir â'r gwasanaeth. Ni all gyfarfod â'r unigolion na'r staff yn y gwasanaeth a holi eu barn.	Cyflawnwyd

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 16/05/2024